

CANIADAU. &c.

CAN AR WERTHFAWROGRWYDD SOBRWYDD.

Tox--"Calon Derwen."

Yn gyntaf mae sobrwydd mor rhwydd yn mhob rhith,
Yn fendith i ddynton, wyr glewion, fel gwllith ;
Er cynnal hir iechyd, heb glefyd na gloes,
Mi galwa'n ymgeledd hyd ddiwedd ein hoes ;
Ni a welwn fo ! rhai, sy'n byw yn eu bai,
Yn clydaw clefydon ar droion heb droi,
C'u hachos eu hun, mae'n dal Hawer dyn
Fyw flinder corfforol mewn iasau mynwesol,
Trwy fyw'n amghymedrol, nid gweddol eu gwyn.

Yn ail, lle bo sobrwydd wir hylwydd wawr hael,
Fe ymddengys yn gymhwys nod gwiwlwys nid gwael,
Pa wr fwy golygus neu drefnus ar dro,
Na'r so'r ddyd dinag, ble bynag y bo ?
Boed gwych, neu boed gwael, wir ffyniant heb ffael,
E gaff gym'radwyaeth ddyd helaeth ddawn hael ;
A'i barchu tra'n bod wr glanwedd ei glod,
O flaen yr aflonydd, gwag obaith neu gybydd,
Na'r meddwyn dig'wilydd annedwydd ei nod.

Yn drydydd, mae sobrwydd iawn sadrwydd yn siwr,
Heblaw fod yn burlan, nawd ddydan heb stwr,
Yn cadw'r syuwyrau mewn graddau'n eu grym,
Be'n collir trwy feddwod hyl amod yn llym :

Y glân ddyu y sydd a'i a'in, wr dyddan bob dydd,
 Yn haeddu'r cymeriad trwy rodiad tra rhydd,
 A'r meddwdod, wyr mwyn, 'rwy'n syniad yw'r swyn
 Sy'n boddi'r talentau, sain, oer a'r synwyrâu,
 Dro gwan mewn dawg wyniau, deganau'n digwyn.

Mi wela, 'n bedwarydd, mai sobrwydd heb sen,
 At gynal syberwyd n.ewn bywyd sydd ben,
 A gwell erbyn marw, mwy croew mae'm cred,
 'Phwn hao gyfiawnder addfwynder a fed.
 Y wobr y sy wr tawel mewn ty,
 Gamp hynod gwmpeini, mae'n lloni pob llu,
 Cawlymad dilen dawn hynod dan neu,
 Pe cawn ni fyw'n abledwydd, wir eirglod, i'r Arglwydd,
 Wych arwydd am sobrwydd er mawrlwydd, Amen.

Y B W T H Y N

Y N N G H A N O L Y W L A D .

Y hwthyn lle treuliais fy mabyd,
 Fan hyny mi hoffwn gael byw ;
 I sugno yr awel iach hyfryd
 Mewn tawel gyndeithas a Daw ;

X20523 7575

Gan dwrf y pentrefwyr a'u cyffro,
 'Rwy'n methu cael unrhyw fwynhad,
 Am hyny nis gallaf anghofio
 Y bwthyn yn nghanol y wlad.

Mae natur o amgylch y bwthyn,
 Yn gwisgo prydferthwech di-ail;
 A chathlau hoff adar y dyffryn,
 A murmur y gwynt drwy y dail;
 Yn ymyl y ty saif celynen
 A blanwyd gan ddwyllaw fy nhad,
 Yn gysgod rhag 'stormydd mae derwen
 I'r bwthyn yn nghanol y wlad.

Symudaf i'r llanerch tra hyfryd,
 Paradwys fy nghanlon i yw;
 Ac yno tra pery fy mywyd
 Arosaf tra byddaf fi byw;
 Henafiaeth a berthyn i'r bwthyn,
 Lle dywedais i gyntaf, fy Nhad,
 A'r fan ce's Fam i'm hamddiffyn,
 Yw'r bwthyn yn nghanol y wlad.

BEDD Y DYN TLAWD.

Is yr ywen d lu, ganghenog,
Twmpath gwyrddlas gwyd ei ben,
Fel i dderbyn o goronog
Addurniadau gw lith y nen ;
Llawer troed yn anystyriol,
Yn ei fathru'n fynych gawd,
Gan ysigo'r glaswellt siriol,
Dyma fedd y dyn tylawd

Swyddwyr cyflog gweithdy'r undeb,
A'i hebiyngodd ef i'w fedd,
Wrth droi'r briddell ar ei wyneb,
Nid oes deigr yn ar un wedd.
'Nol hir frwydro a thrafferthion,
Daeth i ben ei ingo' rawd,
Noddfa dawl rhag anghenion
Ydyw'r bedd i'r dyn tylawd.

Mae'r garreg arw a'r ddwy lythyren
Dorodd rhyw anghelfydd law,
Gyd-chwareuai ag e'n fachgen,
Wedi holli'n ddwy gerllaw ;
A phan ddelo Sul y blodau,
Nid oes yma gân na brawd
Yn rhoi gwyrdd-ddail a phwysiau
Ar lwm fedd y dyn tylawd.

Ar sedd fynor nid yw'r awen
Yn galaru uwch ei lwch,
A chyn hir drwy'r las dywarchen,
Aradr amser dyna'i swch ;
Un a'r llawr fydd ei orphwysfa,
Anghof drosti dyn ei rhawd,
Ond er hyn y angel wylia
Ddaear bedd y dyn tylawd.

IOAN EMLYN.